



## ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU CYNGOR

### BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

*Cyfarwyddiadau cwblhau*

*Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).*

**Cynghorydd: Mike Davies**

**Plaid: Annibynnol**

**Ward: Rhosnesni**

#### **Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:**

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan CBSW):

- 1) Y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol.
- 2) Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad a Llywodraethu.
- 3) Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan y Cynghorydd):

- 1) Cyngor Cymuned Acton yn cynrychioli Ward Rhosnesni.

#### **Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth:**

Fel Cynghorydd newydd, roeddwn yn awyddus fod yn rhan o nifer o weithgareddau lleol er mwyn dod yn gyfarwydd â phroblemau a materion lleol. Rydw i'n mynd i gyfarfodydd grŵp trigolion lleol yn rheolaidd ac fe wirfoddolais i helpu yn eu te prynhawn mefus a'u parti Nadolig. Mae hyn yn rhoi cyfle i mi ymwneud â'r trigolion a thrafod eu problemau a'u materion ar lefel fwy personol.

Rydw i wedi helpu i drefnu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod pethau fel datblygiad ysgol Parc Borrass a Chynllun Datblygu Wreccsam.

Rydw i'n cerdded o amgylch ardaloedd y ward yn aml; o dro i dro gyda'r Heddlu neu swyddogion y Cyngor. Drwy wneud hyn, rydw i'n cadw cysylltiad â phobl ac rwy'n cael cyfle i weld problemau fel tyllau yn y ffyrdd a lampau stryd wedi torri, ac ati.

Rydw i'n rhoi gwybod i drigolion am y wybodaeth ddiweddaraf drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn aml. Ar rai materion lleol, rydw i wedi rhannu taflenni ar hyd strydoedd yn yr ardaloedd sydd o amgylch y broblem benodol ac ymweld â chartrefi. Mae peth o'm gwaith yn gyfrinachol gan y gallaf fod yn delio â phroblem neu fater personol. Fodd bynnag, rydw i wedi delio â nifer o broblemau lleol.

Ymysg y rheini, mae: gofyn i gloddiau mawr gael eu tocio; trefnu i glirio sbwriel o ardaloedd blêr; rhoi gwybod am bafin gwael neu dyllau yn y ffyrdd, ac ati.

Mae trigolion sy'n dymuno rhoi gwybod am broblemau â'r gwasanaeth ailgylchu a gwasanaethau lleol eraill yn aml yn cysylltu â mi i ofyn am gymorth. Byddaf yn ymdrechu i ddatrys y problemau hyn drwy ddelio'n uniongyrchol â'r Adran berthnasol yn y Cyngor.

Fe ymyrrais ar ôl i waith tir a wnaed gan gwmni cyfleustodau achosi difrod i linellau ffôn yn y ffordd. Fe weithiais gyda chynrychiolwyr y cwmni i geisio datrys y broblem.

Rydw i'n aml yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ac rwyf ar achlysuron wedi codi materion lleol rydw i'n bryderus iawn ynglŷn â nhw.

**Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:**

Fe gyfrannais at sicrhau bod drysau trydan yn cael eu gosod mewn 2 floc o fflatiau ar ôl cael gwybod bod nifer o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cael trafferth agor drysau'r tu allan.

Mae gen i gynlluniau ar fynd am welliannau amgylcheddol lleol. Gobeithio y bydd y rhain wedi'u cwblhau'n fuan ac y gallaf sôn amdanynt yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

**Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd:**

Mynd i sesiynau hyfforddi a gweithdai'r Cyngor pan fo modd.

**Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:**

**Llofnod y Cynghorydd: Mike Davies**

**Dyddiad: 30 Gorffennaf 2018**